# Rheoli adnoddau i gefnogi gosod ffensys

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio sut i reoli'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi gosod ffensys. Mae'n cynnwys adnoddau dynol a ffisegol.

Mae'r safon hon yn cynnwys:

- nodi'r gofynion sgiliau ar gyfer gosod ffensys
- trefnu pobl i fodloni'r gofynion sgiliau
- monitro perfformiad cyflogeion a chontractwyr
- ysgogi pobl
- hyfforddi pobl
- trefnu offer a chyfarpar i gefnogi gosod ffensys
- cynnal a chadw offer a chyfarpar.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer goruchwylwyr gosod ffensys.  Gellir ei chymhwyso i gefnogi unrhyw weithrediad gosod ffensys.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

Rheoli adnoddau dynol i gefnogi gosod ffensys

1. cadarnhau bod polisïau iechyd a diogelwch a gofynion asesu risg yn cael eu rhoi ar waith ar draws eich maes cyfrifoldeb
2. cadarnhau bod y gweithlu'n gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) i wneud y gwaith gofynnol
3. monitro iechyd, llesiant a diogelwch y gweithlu
4. defnyddio'r gweithlu gan gadarnhau bod ganddynt y sgiliau, yr hyfforddiant a'r ardystiad gofynnol i wneud y gwaith ac yn meddu ar y trwyddedau gofynnol a chardiau a gydnabyddir gan y diwydiant i weithio ar y safle
5. cadarnhau bod y gweithlu wedi cael gwybod am y safonau gwaith gofynnol ac ymddygiad ar y safle
6. monitro ansawdd a dibynadwyedd y gweithlu
7. cefnogi'r gweithlu er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r gwaith o osod ffensys
8. nodi ac ymdrin â diffygion y gweithlu sy'n effeithio ar gyflawni'r gwaith o osod ffensys

**Rheoli adnoddau ffisegol i gefnogi gosod ffensys**

1. nodi'r gofynion ar gyfer offer a/neu beiriannau er mwyn gwneud y gwaith o'r cyfarwyddiadau a'r manylebau
2. cael offer a/neu beiriannau addas i gefnogi gofynion y gwaith o osod ffensys
3. gwirio a chadarnhau bod yr offer a/neu'r peiriannau yn bodloni gofynion gweithredol a gofynion cyfreithiol perthnasol
4. defnyddio offer a/neu beiriannau i gefnogi gofynion y gwaith o osod ffensys
5. cadarnhau bod gan y defnyddwyr y sgiliau, yr hyfforddiant a'r ardystiad gofynnol i weithredu'r offer a/neu'r peiriannau
6. cadarnhau bod yr offer a/neu'r peiriannau wedi eu paratoi a'u defnyddio'n ddiogel, ac yn cael eu cadw mewn cyflwr sydd yn hawdd eu gwasanaethu
7. cadarnhau bod y gofynion cynnal a chadw ac atgyweirio ar gyfer offer a/neu beiriannau yn cael eu bodloni a'u cofnodi, yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
8. sicrhau bod gofynion diogeledd a diogelwch ar gyfer storio offer a/neu beiriannau yn cael eu cynnal

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

Rheoli adnoddau dynol i gefnogi gosod ffensys

1. sut i gyfathrebu polisïau iechyd a diogelwch a gofynion asesu risg i'r rheiny sydd yn gwneud y gwaith, a chadarnhau eu bod wedi deall eu cyfrifoldebau
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) y dylid eu gwisgo
3. iechyd, llesiant a gofynion diogelwch sydd yn gysylltiedig â gwaith gosod ffensys
4. sut i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r ardystiad gofynnol i wneud y gwaith, a bod ganddynt y trwyddedau gofynnol a'r cardiau a gydnabyddir gan y diwydiant i weithio ar y safle
5. sut i sefydlu ansawdd a dibynadwyedd gweithlu
6. manteision ac anfanteision sydd yn gysylltiedig â gweithluoedd gwahanol yn cynnwys cyflogeion yn unig, contractwyr yn unig a chyflogeion sydd yn cydweithio
7. gweithdrefnau gwerthuso ac adrodd y cwmni a ddefnyddir i reoli'r defnydd o'r gweithlu a'u haddasrwydd
8. sut i ymdrin â diffygion gweithlu
9. sut i gefnogi'r gweithlu i gyflawni'r gwaith a gynlluniwyd o osod ffensys
10. sut i roi cyfarwyddyd i bobl a'u hyfforddi i gyflawni'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer gosod ffensys

**Rheoli adnoddau ffisegol i gefnogi gosod ffensys** 1. sut i nodi a chael yr offer a/neu'r peiriannau sy'n ofynnol ar gyfer gosod ffensys yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r manylebau 2. galluoedd yr offer a/neu'r peiriannau sy'n ofynnol i wneud y gwaith gosod gofynnol 3. y peryglon sydd yn gysylltiedig â'r offer a/neu'r peiriannau a ddefnyddir 4. Y gofynion hyfforddiant/ardystiad penodol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r offer a/neu'r peiriannau 5. y gofynion cyfreithiol perthnasol a gofynion y cwmni sy'n rheoli'r defnydd o offer a/neu beiriannau 6. gofynion y cwmni o ran dogfennau ar gyfer monitro'r defnydd o offer a/neu beiriannau a'u haddasrwydd 7. pwysigrwydd dilyn y gweithdrefnau penodedig ar gyfer paratoi a defnyddio offer a/neu beiriannau 8. prosesau cynnal a chadw ac atgyweirio'r cwmni ar gyfer offer a/neu beiriannau a phwysigrwydd cynnal a chadw ac atgyweirio wrth

## Geirfa

Gallai **cyfarwyddiadau a manylebau** gynnwys:

- cynlluniau/darluniau
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- canllawiau'r cynhyrchydd
- gofynion y cwsmer
- safonau ansawdd e.e. BSI, CE
- cyfarwyddiadau llafar

Rheoli adnoddau i gefnogi gosod ffensys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFe18 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffensio |
| **Cyfres/Set** | Ffensio |
| **Geiriau Allweddol** | gweithlu; peiriannau; pobl; offer; gosodiad; ffensio |